**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

**National Assembly for Wales**
Environment and Sustainability Committee

Carl Sargeant AC
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol
Llywodraeth Cymru

29 Mehefin 2015

Annwyl Carl

**Ymchwiliad i dlodi tanwydd ac effeithlonrwydd ynni yng Nghymru - casgliadau**

Diolch am eich ymateb dyddiedig 12 Chwefror i fy llythyr blaenorol ynghylch ymchwiliad y Pwyllgor i dlodi tanwydd ac effeithlonrwydd ynni. Mae'r Pwyllgor wedi ystyried eich ymateb a'r dystiolaeth a roddwyd iddo gan randdeiliaid, ac mae'n nodi rhai o'i gasgliadau isod.

**Strategaeth Tlodi Tanwydd**

Dywedodd rhanddeiliaid wrthym, er bod y dull gweithredu yn y Strategaeth yn parhau'n ddilys, nid yw rhai o'r cynlluniau y cyfeirir atynt yn bodoli bellach. Rydym yn credu ei bod yn bwysig bod y Strategaeth mor gyfredol â phosibl, ac y dylai nodi'r cynlluniau diweddaraf. Felly, er ein bod yn nodi nad oes gennych ddim cynlluniau buan i adolygu'r Strategaeth, rydym yn falch y byddwch yn ystyried y mater hwn. Rydym yn bwriadu parhau i adolygu'r mater fel rhan o'n gwaith craffu parhaus ar eich adran.

**Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Dlodi Tanwydd**

Roedd y dystiolaeth gan randdeiliaid o blaid cefnogi ailsefydlu Grŵp Cynghori'r Gweinidog yn amlwg, ac felly rydym yn siomedig â'ch penderfyniad i beidio â gwneud hynny.

Nodwn fod cynrychiolwyr o ran tlodi tanwydd wedi'u cynnwys fel aelodau o'r Grŵp Cynghori Allanol ar Drechu Tlodi, fodd bynnag, rydym yn bryderus na fydd tlodi tanwydd yn cael digon o amlygrwydd fel rhan o'r grŵp cynghori ehangach ar dlodi, yn enwedig gyda dim ond un cynrychiolydd o'r maes penodol hwn.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddAmgylch@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddAmgylch
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddEnv@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddEnv
0300 200 6565

Yn ychwanegol at ei brif ddiben, sef cynghori Llywodraeth Cymru, dywedodd rhanddeiliaid wrthym fod y grŵp hefyd yn cynnig cyfle pwysig i'r sector gwirfoddol, cyrff hawliau defnyddwyr a chwmnïau ynni drafod materion penodol sy'n ymwneud â thlodi tanwydd.

**Wrth nodi eich safbwynt o ran adfer y grŵp, rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru hwyluso fforwm blynyddol, o leiaf, ar gyfer pawb sydd â diddordeb, a rhanddeiliaid, i drafod materion sy'n gysylltiedig â chamau i fynd i'r afael â thlodi tanwydd a gwella effeithlonrwydd ynni yng Nghymru**.

**Strategaeth effeithlonrwydd ynni**

Nodwn fwriad Llywodraeth Cymru i gyflwyno strategaeth effeithlonrwydd ynni newydd, a chroesawn eich ymrwymiad i hyn. Byddwch yn cofio, yn fy llythyr blaenorol, dywedais fod cwmnïau ynni, cymdeithasau tai a NEA Cymru i gyd wedi galw am well cydgysylltu rhwng Llywodraeth Cymru a chynlluniau ar draws y DU, fel Rhwymedigaeth y Cwmnïau Ynni (ECO).

**Rydym yn edrych ymlaen at weld y strategaeth arfaethedig pan fydd ar gael, ac rydym yn argymell y dylai'r Strategaeth hon nodi sut y bydd y cydgysylltiad rhwng cynlluniau yn cael ei wella.**

**Cynlluniau Effeithlonrwydd Ynni**

Fel y nodwyd yn ein llythyr blaenorol atoch, rydym yn croesawu ymrwymiad parhaus Llywodraeth Cymru i gyflawni ei gynlluniau effeithlonrwydd ynni. Nodwn eich ymateb i'r gwelliannau a awgrymwyd i Nyth, ac Arbed, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan randdeiliaid, a gobeithio y bydd y rhain yn cael eu hystyried wrth i'r rhaglenni hyn gael eu gwerthuso'n barhaus. Nodwn farn Llywodraeth Cymru fod y cynlluniau presennol wedi bod yn effeithiol wrth fynd i'r afael ag effeithlonrwydd ynni mewn ardaloedd gwledig, ond croesawn eich ymrwymiad i adolygu hyn, er mwyn edrych a oes modd gwneud rhagor o welliannau. **O ystyried nifer y rhanddeiliaid a ddywedodd wrthym y gellid darparu'r rhaglenni yn well mewn ardaloedd gwledig, credwn fod yr ymrwymiad hwn i barhau i adolygu'r cynlluniau yn bwysig, a byddwn yn ddiolchgar pe bai modd i chi ddiweddaru'r Pwyllgor am unrhyw gynnydd a wneir yn hyn o beth.**

Fel y gwyddoch, roeddem yn pryderu o glywed gan randdeiliaid am yr effeithiau y gallai'r newidiadau i Rwymedigaeth y Cwmnïau Ynni (ECO) eu cael yng Nghymru. Rydym yn croesawu'r sylwadau a gyflwynwyd gan eich rhagflaenydd i Lywodraeth y DU am y newidiadau hyn, a'r trafodaethau a gafodd eich swyddogion gyda'r cwmnïau ynni ynglŷn â chyflwyno Rhwymedigaeth y Cwmnïau Ynni yng Nghymru. Gobeithiwn y bydd trafodaethau a sylwadau o'r fath yn parhau yn y dyfodol, er mwyn sicrhau bod cwsmeriaid yng Nghymru yn cael y budd gorau posibl o Rwymedigaeth y Cwmnïau Ynni.

**Data**

Roeddem yn falch o nodi, yn eich ymateb, fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi data newydd ar dlodi tanwydd, ac o nodi'ch ymrwymiad i ariannu ymchwilydd arbenigol i weithio ym maes data ar gyflwr tai.

**Byddem yn ddiolchgar pe bai modd i chi roi gwybod i ni am y cynnydd a wneir i weithredu hyn, ac am unrhyw ganfyddiadau a wneir fel rhan o'r prosiect.**

**Dyled Tanwydd**

Er ein bod yn cydnabod bod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud o ran lleihau dyled tanwydd yng Nghymru, rydym yn pryderu bod y cynnydd yn parhau'n araf, ac nad ydyw i'w weld yn gyffredin. Cododd rhanddeiliaid y mater o dlodi tanwydd mewn ardaloedd gwledig fel maes pryder sylweddol.

**Gofynnwn i chi barhau i graffu ar lefel y ddyled tanwydd yng Nghymru, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, a gobeithiwn weld rhagor o gynnydd o ran gostwng y lefelau hyn.**

Rydym yn croesawu'r camau a gymerwyd hyd yma, gan y cwmnïau ynni, i gefnogi cwsmeriaid yng Nghymru sydd mewn dyled tanwydd, ond rydym yn parhau'n bryderus bod rhagor o ddyled tanwydd yng Nghymru o'i gymharu â Lloegr a'r Alban. Roeddem hefyd yn bryderus o glywed am y problemau a'r cyfyngiadau y gall cwsmeriaid ar fesuryddion talu ymlaen llaw eu hwynebu'n barhaus.

Roeddem yn falch o glywed, yn ystod ein sesiwn graffu gyda chi ar 4 Mawrth, y byddech yn trefnu i gwrdd â'r chwe phrif gwmni ynni fel mater o frys.

**Rydym yn argymell, yn ystod y cyfarfod hwnnw, eich bod yn nodi wrthynt rai o'r materion pwysig a gododd yn ystod ein hymchwiliad, gan gynnwys:**

- **eu polisïau o ran ymdrin â chwsmeriaid mewn dyled tanwydd;**
- **eu polisïau o ran asesu pa mor addas yw gosod mesuryddion talu ymlaen llaw ar gyfer cwsmeriaid sy'n agored i niwed;**
- **y rhwystrau y mae cwsmeriaid sydd â mesuryddion talu ymlaen llaw, ac sydd am newid i ffyrdd eraill o dalu, yn eu hwynebu; a**
- **chyflwyno mesuryddion deallus yng Nghymru.**

**Byddem yn ddiolchgar pe bai modd i chi ddiweddaru'r Pwyllgor am ganlyniadau'r trafodaethau hyn.**


**Diogelu Defnyddwyr**

Yn ein sesiynau craffu diweddar gyda chi, rydym wedi codi materion diogelu defnyddwyr rhag cynlluniau effeithlonrwydd ynni twyllodrus, a darparu cyngor a chymorth dibynadwy. Felly, rydym yn croesawu'r ymrwymiad a wnaed gennych i

sefydlu cynllun Cymru Effeithlon, ac edrychwn ymlaen at adolygu llwyddiant y gwasanaeth hwn wrth iddo ddatblygu.

Mae tlodi tanwydd ac effeithlonrwydd ynni o ddiddordeb mawr i'r Pwyllgor, a byddwn yn parhau i fonitro'r cynnydd a wneir yn y meysydd hyn, gan gynnwys drwy sesiynau craffu cyffredinol gyda'r Gweinidog.

Yn gywir



**Alun Ffred Jones AC**

**Cadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd**